# Ysgrifennu Cwestiynau Arholiad sy’n Ystyriol o Ddyslecsia

## Rydym yn argymell eich bod yn gwneud y pethau canlynol

-  Ysgrifennwch eich cwestiynau mewn **camau clir, cryno, dilyniannol**.
-  Ar gyfer **arholiadau ymarferol**, darparwch gyfarwyddiadau ysgrifenedig i gefnogi cyfarwyddiadau llafar.
-  Defnyddiwch **ofod gwyn** fel ei bod yn hawdd gweld gwahanol rannau’r cwestiwn.
-  Nodwch **eiriau allweddol** mewn **print trwm** ee, rhowch **ddau** ateb.
-  Lle bo modd, dylech gynnwys awgrym o **nifer geiriau** ar gyfer pob cwestiwn.
-  Cadwch **opsiynau ateb cwestiynau aml-ddewis** mor syml â phosibl.
-  Rhestrwch **opsiynau ateb cwestiynau aml-ddewis** o dan y cwestiynau i osgoi anawsterau dilyn â’r llygad.
-  Ar gyfer **arholiadau o bell**, rhowch gyfarwyddiadau ar gyfer unrhyw dasg ychwanegol e.e., os oes angen diagram, nodwch y math o ddiagram (wedi'i dynnu â llaw / wedi'i gynhyrchu â chyfrifiadur).
-  Defnyddiwch **ffont Sans-serif** (e.e., Arial a Verdana) a **lleiafswm maint ffont** o 12.
-  Defnyddiwch **bwyntiau bwled** yn lle paragraffau lle bo hynny'n bosibl.
-  Tynnwch sylw at y **marciau sydd ar gael** ar gyfer pob cwestiwn yn yr arholiad, gyda nodyn yn atgoffa beth yw cyfanswm marciau’r arholiadau e.e., 4 o 50 marc.

## Dylech osgoi gwneud y canlynol

-  Defnyddio **negyddion dwbl** yn Saesneg oherwydd mae’n hawdd eu camddeall.
-  Defnyddio **cwestiynau hir, geiriog** a all arwain at orlwytho gwybodaeth.
-  Darparu **opsiynau ateb hir** mewn cwestiynau aml-ddewis a all arwain at orlwytho gwybodaeth.
-  **Rhestru dewisiadau ateb cwestiynau aml-ddewis ar ddalen ar wahân** oherwydd gallai hyn gynyddu anawsterau dilyn â’r llygad.

Y Tîm Dyslecsia
Medi 2021